



## Yr Uned Wenyn Genedlaethol

### Rheoli chwilen fach y cwch

Ionawr 2022

Os bydd chwilen fach y cwch (*Aethina tumida*) yn cyrraedd y Deyrnas Unedig ac nad oes modd ei dileu, bydd yn rhaid i wenywyr roi mesurau ar waith i reoli plâu. Nid oes un ffordd syml o reoli'r pla gwenyn hwn a bydd yn rhaid defnyddio system Rheoli Plâu Integredig. I reoli plâu, mae angen amharu ar gylch oes y chwilod, neu ei atal rhag cwblhau. Mae'r daflen hon yn rhoi amlinelliad o fesurau y gellir eu defnyddio.

#### Beth yw'r un mesur pwysicaf?

Yn dilyn profiad yn UDA, mae'n amlwg mai glendid yn yr ardal dynnu yw'r mesur pwysicaf. Fel yn achos llawer o blâu, gall nythfeydd cryf ac iach arfer cryn reolaeth dros y pla hwn. Mae nythfeydd gwan, lloffydd mêl neu gewyll heb wenyn mêl ynddynt yw'r prif fannau lle y bydd plâu yn datblygu'n gyflym. Sicrhewch fod yr ardal dynnu yn cael ei chadw'n glir o weddillion cwch gwenyn, a dylid tynnu lloffydd mêl allan yn gyflym a'u storio mewn modd addas er mwyn atal plâu. Yn yr un modd, tynnu a dinistrio unrhyw grwybr sydd â'r pla hwn arno yw un o'r prif fesurau rheoli.



Ffig. 1: camau bywyd chwilen fach y cwch (heb gynnwys wyau)

Yn Ffig. 1 uchod, mae'r larfa ar y gwaelod a'r hyn sy'n ei wneud yn wahanol i'r gwyfyn cŵyr yw'r drain sy'n gwthio allan o'i gefn a'r tri phâr o goesau yn agos i'r blaen. O'r chwith i'r dde mae gwahanol gamau datblygu'r chwiler, gyda'r llun uchaf yn dangos golwg fentrol ar chwilen lawndwf sydd wedi datblygu'n llawn.

## Pa ddulliau rheoli cemegol sydd ar gael?

Yn UDA, caiff y gwiddonladdwr 'CheckMite+' ei ddefnyddio i reoli chwilen fach y cwch. Os bydd cadarnhad bod y pla hwn yn y DU, mae'n fwyaf tebygol y caiff y cynnyrch hwn ei ddefnyddio i'w reoli, a hynny drwy Awdurdodiad Triniaeth Arbennig i ddechrau. Ar adeg ysgrifennu, nid yw'r cynnyrch hwn wedi'i gymeradwyo i gael ei ddefnyddio yn DU (diweddarwyd ym mis Mawrth 2014) ond gellir gwneud cais amdano o dan y system raeadru ar gyfer rhagnodi meddyginiaethau milfeddygol heb eu cymeradwyo. Caiff un stribed ei thorri yn ei hanner a'i styffylu'n sownd mewn sgwâr o fetel rhychiog. Caiff y sgwâr hwn ei osod ar lawr y cwch gwenyn, ar yr wyneb sydd â'r stribed arno, fel y bydd y chwiler yn dod i gysylltiad â'r stribed pan fyddant yn tyrchu o dan y rychau. Mae gwenynwyr yng Ngogledd America yn dweud nad yw'r driniaeth hon ar ei phen ei hun yn ddigon i reoli chwiler. Mae'r driniaeth yn para chwe wythnos. Ni ddylid rhoi'r driniaeth os oes lloffydd mêl ar y cwch gwenyn, ac ni ellir gosod lloffydd mêl ar y cwch am o leiaf bythefnos wedi hynny. Mae stribedi o blastig rhychiog na all gwenyn eu cnoi ar gael.




**Ffig. 2: CheckMite+ yn cael ei ddefnyddio mewn trap syml**

## Pa dechnegau rheoli sydd ar gael?

Mae llawer o dechnegau wedi cael eu cynnig ac wrthi'n cael eu datblygu. Mae'r technegau hwsmonaeth mwyaf sylfaenol, fel cynnal nythfeydd cryf a hylendid da mewn gwenynfeydd yn syml ond yn hanfodol wrth fynd i'r afael â chwilen fach y cwch. Bydd hybu ymddygiad hylan naturiol mewn nythfeydd gwenyn mêl hefyd yn helpu ac mae'n bwysig culhau mynedfeydd i gychod gwenyn er mwyn atal chwiler rhag mynd i mewn iddynt.

## Trap chwilod bach cwch 'Hood'


Caiff y trap hwn ei ddefnyddio mewn nythfeydd lle mae chwilod bach y cwch yn symud o gwmpas, sy'n digwydd ar dymreddau dros 18C fel arfer. Caiff y cynhwysydd ei lenwi hanner ffordd ag olew mwynol safon bwyd neu finegr seidr a'i osod yn y man lle mae'r chwilod i'w gweld fwyaf. Gall hyn fod yn y nyth magu wrth ymyl crwybrau magu neu mewn lloffydd mêl. Gellir gosod y trapiâu'n sownd mewn mag neu fframiau lloffydd mêl. Yn aml, bydd gwenyn yn llenwi'r twll twndis ar y brig â glud gwenyn felly bydd angen i glirio'n rheolaidd gan ddefnyddio offeryn cwch gwenyn. Os caiff ei ddefnyddio yn y blwch magu, gellir defnyddio'r lle o amgylch y trap i dynnu mag gwenyn gormes fel mesur i reoli Varroa.



**Fig. 3:** trap chwilod bach y cwch Hood mewn ffrâm fag.

## Trap chwilod 'West'

Caiff yr hambwrdd llawr plastig hwn ei farchnata a'i ddefnyddio yn UDA. Fe'i bwriedir ar gyfer cwch gwenyn Langstroth ond gellid ei addasu i'w ddefnyddio ar gyfer cychod gwenyn eraill. Caiff yr hambwrdd gwaelod ei lenwi ag olew llysiâu a'i orchuddio â rhwyll blastig fel bod y chwilod, pan fyddant yn mynd i lawr i'r llawr, yn cwmpo drwy'r tyllau ac yn boddi yn yr olew. Byddai unrhyw larfâu chwilen fach y cwch sy'n gadael y cwch gwenyn i chwiler a yn cwmpo drwy'r tyllau yn yr un modd. Dim ond yn ystod cyfnodau pan fydd y chwilod yn symud o gwmpas y caiff y llawr ei ddefnyddio, ac mae'n hawdd ei lanhau os nad yw wedi sychu. Mae angen cadw'r llawr yn wastad ac, oni bai bod y cwch gwenyn yn gwbl ddi-ddos, gall orlifo pan fydd hi'n bwrw glaw.



**Ffig. 4: hambwrdd llawr plastig 'West'**

## **A ddylwn fod yn ymwybodol o unrhyw beth arall?**

Ers iddi gyrraedd De'r Eidal yn 2014 a pharhau i ymddangos yno, mae chwilen fach y cwch wedi profi y gall ledaenu'n gyflym ar ôl sefydlu ei hun a'i bod yn anodd ei dileu. Os bydd y chwilen yn cyrraedd y DU, mae'n annhebygol y gallwn ei dileu, oni ddown o hyd iddi yn gyflym. Yn lle hynny, bydd angen i ni addasu ein dulliau o reoli ein nythfeydd a defnyddio dulliau Rheoli Plâu Integredig wedi'u profi i reoli poblogaethau chwilod. Mae gwaith yn ymchwil yn cael ei wneud i ddatblygu technegau rheoli amgen megis trapiau fferomon.

## **Ymchwilio i'r defnydd o nematodau**

Nematodau yw'r anifeiliaid amlgellog mwyaf niferus ar y ddaear. Bydd llond llaw o bridd yn cynnwys miloedd o'r mwydod microsgopig hyn, a llawer ohonynt yn barasitiaid i drychfilod, planhigion neu anifeiliaid. Yn yr Asiantaeth Ymchwil i Fwyd a'r Amgylchedd (Fera), mae'r adran Rheoli Plâu yn ymchwilio i dri math o nematod er mwyn dysgu am eu gallu i heintio a lladd larfâu chwilen fach y cwch sy'n chwileru yn y pridd. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i'w gweld mewn erthyglau ar dudalennau'r wasg boblogaidd ar BeeBase: <https://secure.fera.defra.gov.uk/beebase/index.cfm?pageid=166>. Yn gryno, defnyddiwyd tair rhywogaeth o nematodau, sef *Steinernema feltiae*, *S. kraussei* ac *S. carpocapsae*. Dangosodd y canlyniadau fod hyn yn ffordd effeithiol o reoli larfâu chwilod, ac *S. kraussei* ac *S. carpocapsae* oedd fwyaf effeithiol. Cyfradd marwolaethau'r chwilod a ddaeth i gysylltiad â'r nematodau hyn o dan amodau labordy oedd 100%.

## **Triniaethau pridd**

Ceir tystiolaeth bod defnyddio permethrin, ffenitrothion, clorpyrifos a methomyl yn gweithio. Ffenitrothion oedd y mwyaf gwenwynig i larfâu a daethpwyd i'r casgliad bod y cemegion hyn yn fwy gwenwynig na chwmaffos (y cynhwysyn gweithredol mewn CheckMite+). Fodd bynnag, mae llawer ohonynt (gan gynnwys permethrin) hefyd yn

wenwynig iawn i rywogaethau eraill o drychfilod (na chânt eu targedu) yn ogystal â gwenyn mêl a gallant arwain at ddatblygu poblogaethau o chwilod sy'n gallu eu gwrthsefyll.

**National Bee Unit**

APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,  
Sand Hutton, York YO41 1LZ  
Ffôn: 03003030094 E-bost: [nbu@apha.gov.uk](mailto:nbu@apha.gov.uk)  
Gwefan: [www.nationalbeeunit.com](http://www.nationalbeeunit.com)

Ionawr 2022

(h) Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) neu e-bostiwch [PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk)